



# **Anghenion Dysgu Ychwanegol Conwy**

## **Dogfen Egwyddorion**

**Fersiwn 2: 18 Hydref 2023**

**This document is also available in English.**

## Rhagarweiniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn awyddus i gael ei gydnabod fel un sy'n cynnig addysg ragorol i bob plentyn a pherson ifanc. Mae'r Cyngor a'r ysgolion yn parhau i ganolbwyntio ar wella addysg a pherfformiad ar draws yr holl system ysgolion fel bod pob person ifanc yn dod yn unigolion iach a hyderus sy'n chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau ac sy'n fedrus ac yn barod ar gyfer y cyfleoedd swyddi sydd ar gael.

Wrth wneud hynny, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu addysg ragorol, cefnogaeth a darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, ac wrth gyflawni egwyddorion Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Cymru 2021. Nod yr egwyddorion hyn yw 1) helpu i greu system addysg gwbl gynhwysol, lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo; 2) cael mynediad at addysg sy'n diwallu eu hanghenion; a 3) sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn addysg, elwa arno a'i fwynhau.

Dyma'r egwyddorion sy'n sail i'r system ADY yng Nghymru:

- (a) Dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau lle mae barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc yn ganolog i'r gwaith o gynllunio a darparu cymorth; ac mae'r plentyn, rhiant neu berson ifanc plentyn yn cael y cyfle i gymryd rhan mor llawn â phosibl yn y prosesau gwneud penderfyniadau ac mae ganddo neu ganddi hawliau effeithiol i herio penderfyniadau am ADY, DDdY a materion cysylltiedig.
- (b) Adnabod, ymyrryd ac atal yn gynnar lle nodir anghenion a sicrhau darpariaeth cyn gynted â phosibl a lle y bo'n bosibl rhoi ymyriadau ar waith i atal ADY rhag datblygu neu ddwysáu.
- (c) Cydweithio ac integreiddio gyda gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ADY yn cael eu nodi'n gynnar a bod cymorth cydgysylltiedig priodol yn cael ei roi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni disgwyliadau, profiadau a chael canlyniadau cadarnhaol.
- (d) Addysg gynhwysol lle mae mwyafrif y plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn mewn addysg prif ffrwd a chymerir dull lleoliad cyfan i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY.

(e) System ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno DDdY yn Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda lle i gynyddu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg dros amser.

Fel Cyngor, mae Conwy wedi ymrwmo i gefnogi a gwireddu'r egwyddorion hyn a sicrhau bod Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn rhan annatod o'n holl feysydd gwaith.

### Cod ADY Cymru 2021: Egwyddorion yr Awdurdod Lleol

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (12:44) yn nodi sut y mae awdurdodau lleol, (mewn ymgynghoriad ag ysgolion a gynhelir ganddynt ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol), yn gorfod sefydlu a chyhoeddi cyfres o egwyddorion a fydd yn berthnasol wrth benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol sicrhau'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen ar ddisgybl neu a ddylai'r awdurdod wneud hynny.

Dylai egwyddorion ymwneud â:

(a) Lefel a hyd y cyngor gan arbenigwyr allanol sy'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei sicrhau;

(b) Yr offer sy'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei ddarparu;

(c) Dwyster a hyd cefnogaeth a graddfa ymgysylltu mewnol staff (gan gynnwys y Cydgysylltydd ADY) yn yr ysgol sy'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei darparu.

Mae'r ddogfen ganlynol yn disgrifio'r egwyddorion y bydd awdurdod lleol ac ysgolion Conwy yn eu cymhwyso wrth wneud penderfyniadau am y DDdY briodol ac angenrheidiol sydd ei hangen i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Paratowyd y ddogfen mewn ymgynghoriad ag ysgolion Conwy ac fe fydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol. Dyddiad yr ail adolygiad fydd: **18 Hydref 2023**.

### Cynhwysiant

Mae Conwy wedi ymrwmo i addysg gynhwysol lle caiff mwyafrif y plant a phobl ifanc sydd ag ADY eu cefnogi i gymryd rhan lawn mewn addysg prif ffrwd, a dull gwasanaeth

a lleoliad cyfan i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Dylai'r holl ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddarperir gan yr ysgol a'r awdurdod lleol anelu at gefnogi cynhwysiant a chael ei chynllunio i hyrwyddo a chefnogi mynediad ac ail-integreiddio i addysg prif ffrwd lle bynnag y bo modd a lle y bo'n briodol gwneud hynny.

Mae cyngor ac ysgolion Conwy yn credu bod cyfrifoldeb cyfunol i wneud y mwyaf o gyfleoedd addysgol pob plentyn a pherson ifanc y nodwyd bod ganddynt ADY. Dylid nodi a dileu rhwystrau i gynhwysiant, gan alluogi pob dysgwr i gymryd rhan ac elwa ar ddysgu, gyda phob un yn adeiladu ar eu meysydd cryfder penodol.

### Cymorth Cyffredinol

Mae'r Cod ADY yn esbonio nad yw cynnydd araf a chyrhaeddiad isel o reidrwydd yn golygu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY ac na fyddai'n arwain yn awtomatig at benderfyniad bod gan y dysgwr ADY. Mae plant a phobl ifanc yn aml yn symud ymlaen ar gyfraddau gwahanol ac mae'n debyg nad yw'r ffaith bod plentyn neu berson ifanc yn tanberfformio o gymharu ag eraill o'r un oed, ar ei ben ei hun, yn brawf o ADY. Wrth ystyried anghenion y plentyn neu'r person ifanc, efallai y gwelir bod y plentyn neu'r person ifanc mewn gwirionedd yn gwneud cynnydd da yn erbyn ei linell sylfaen ei hun a'r canlyniadau a fwriedir. Yn wir, fe fydd yna bob amser rai dysgwyr sydd â lefelau cyrhaeddiad a gallu is ac sydd efallai, yn symud ymlaen ar gyfradd arafach ond cyson. Bydd angen cefnogaeth arnynt i gael mynediad at gwricwlwm gwahaniaethol i wneud cynnydd addas, ond efallai na fydd y gefnogaeth honno o reidrwydd yn gyfystyr ag DDdY.

Os nad yw'r cynnydd yn ddigonol, (fel y nodir gan sbardunau sy'n gysylltiedig â dysgwyr unigol ac y rhoddir sylw iddynt gan brosesau ysgolion cyfan unigol), bydd angen cymryd rhywfaint o gamau ychwanegol neu wahanol er mwyn galluogi'r dysgwr i ddysgu'n fwy effeithiol. Yn aml yr ymateb cyntaf i gynnydd annigonol yw mynd ati'n benodol i dargedu meysydd gwendid y dysgwr. Disgwylir i bob lleoliad addysg roi trefniadau addysgu gwahaniaethol ar waith neu ymyriadau eraill wedi'u targedu er mwyn sicrhau cynnydd gwell lle bo hynny'n briodol, ar gyfer pob dysgwr. Yn wir, bydd angen dull gwahaniaethol ar y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc mewn rhyw agwedd o'u haddysg ar ryw adeg. Mae hyn yn elfen sylfaenol o addysgu o safon uchel - ond arferol.

Nid yw addysgu gwahaniaethol o'r fath, ei hun, yn gyfystyr ag DDdY ac nid yw'r ffaith bod angen dull gwahaniaethol ar blentyn neu berson ifanc yn golygu bod ganddynt ADY. **Mae DDdY yn cynnwys darpariaeth addysgol neu hyfforddiant ychwanegol neu wahanol, sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ddarperir yn gyffredinol.**

### Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol Ysgol (DDdY)

Mae cyngor ac ysgolion Conwy'n cynnig continwmm eang o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i blant ag ADY. Bydd y continwmm hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb i natur a gofynion ADY a brofir gan blant a phobl ifanc Conwy. Bydd yr adolygiad hwn yn gwerthuso pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth, o ran cynnydd a chanlyniadau dysgwyr unigol, a pha mor llwyddiannus y mae'n cefnogi cynhwysiant.

Yn unol ag egwyddorion deddfwriaeth ADY yng Nghymru, caiff anghenion addysgol ADY y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc eu nodi, gan eu diwallu a'u monitro o fewn ysgolion prif ffrwd. Gwneir hyn drwy wahaniaethu'n briodol mewn dull a gynlluniwyd yn ofalus ynghyd â mynediad at strategaethau perthnasol ac ymyriadau wedi'u targedu tymor byr ar lefel **gyffredinol** o gefnogaeth fel y disgrifir uchod, ac ymyriadau dwys a hir wedi'u targedu'n ychwanegol, yn seiliedig ar dystiolaeth. (**DDdY Ysgol**).

Fel y'i diffinnir uchod, mae DDdY yn cynnwys darpariaeth addysgol neu hyfforddiant ychwanegol neu wahanol, sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ddarperir yn gyffredinol i bob disgybl yn yr ysgol. (Atodiad a).

Dylai ysgolion wneud defnydd llawn o Becyn Cymorth ADY Conwy a Sir y Fflint wrth gynllunio a darparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Mae'r Pecyn Cymorth yn gosod enghreifftiau o ddarpariaeth yn ofalus ar gyfer gwahanol feysydd o ddatblygiad ac angen ar bob cam o'r continwmm/ ymateb graddedig.

Disgwylir felly y bydd Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cael ei baratoi a'i gynnal gan ysgol prif ffrwd gartref ar gyfer mwyafrif y plant a'r bobl ifanc ag ADY. Mae'r Cod ADY yn nodi sut y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol barhau i fabwysiadu ymateb graddedig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY, gan wneud defnydd o ystod eang o strategaethau. Mae hyn yn golygu y dylai'r DDdY fod ar y **lefel isaf sydd ei angen** i ddiwallu anghenion penodol y plentyn neu'r person ifanc.

Yn benodol, mae disgwyl i ysgolion "ddefnyddio'u hadnoddau sydd ar gael, lle bo angen, cyn dod ag arbenigedd arbenigol i roi cymorth gyda'r anawsterau y gallai plentyn neu berson ifanc fod yn eu profi". Mewn llawer o achosion bydd y DDdY a ddarperir i ddechrau yn golygu bod anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diwallu neu eu datrys yn llawn. Dim ond yn achos y plant neu'r bobl ifanc hynny y mae eu cynnydd yn ddarpariaeth DDdY neu gynnig un wahanol. Y gobaith yw, gyda DDdY ysgol lwyddiannus, o ansawdd uchel a thystiolaeth yn seiliedig ar ansawdd, y bydd angen llai yn hytrach na mwy o DDdY yn raddol ar blant neu bobl ifanc dros amser.

Er mwyn helpu i gefnogi cynhwysiant a gweithredu DDdY sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion, neilltuir cyllid ychwanegol i ysgolion o dan y penawdau canlynol:

- Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cynradd)
- Cynhwysiant Cymdeithasol (Uwchradd)
- Amddifadedd Cymdeithasol (Cynradd ac Uwchradd)
- Cynorthwywyr Addysgu ADY (Cynradd ac Uwchradd)
- Cymorth Dysgu (Uwchradd)
- Allgymorth Awtistiaeth (Uwchradd)

Dylid defnyddio'r cyllid hwn i sicrhau bod staff priodol a darpariaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

### **Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol Awdurdod Lleol (DDdY)**

Drwy'r adolygiad ADY statudol, bydd yr awdurdod lleol yn gwerthuso ac yn diwygio ei gynnig o DDdY i ymateb i angen a nodwyd a'r adnoddau sydd ar gael. Mae gan Gonwy ystod gymharol eang a helaeth o DDdY a ariennir gan yr ALL, ac mae wedi ymrwymo i ddatblygu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ymhellach. Cytunir ar yr holl leoliadau yn DDdY Conwy gan y Panel Safoni aml-asiantaeth oedran ysgol, (Atodiad b), gan ddefnyddio Meini Prawf Mynediad DDdY perthnasol y sir. (Atodiad c).

Mae'r holl feini prawf ar gyfer darpariaeth benodol yn dibynnu ar fodloni meini prawf cyffredinol, yn unol â'r gofyniad i ysgolion a'r awdurdod lleol fabwysiadu ymateb graddedig, a bod DDdY ar y lefel isaf sydd ei angen i ddiwallu anghenion penodol y plentyn neu'r person ifanc. Mae'r meini prawf cyffredinol hyn yn sicrhau'r canlynol:

- Mae'r plentyn/person ifanc wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn yr ysgol, gofynnwyd am ei farn a'i ddymuniadau a gwrandawyd arnynt yn briodol.
- Mae'r plentyn/person ifanc wedi bod yn rhan o baratoi ac adolygu ei Gynllun Datblygu Unigol ac mae ymdrechion clir wedi'u gwneud i sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn deall diben pob ymyrraeth a chefnogaeth.
- Mae rhieni/gofalwyr wedi bod yn cymryd rhan weithgar wrth gynllunio Cynllun Datblygu Unigol y plentyn/person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
- Mae rhieni wedi cael gwybodaeth briodol am ddiben ymyriadau a chefnogaeth.
- Gofynnwyd am gyfle i ymgynghori ar DDdY briodol gyda gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau cynghori perthnasol.
- Mae'r ysgol wedi paratoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol, gan gynnwys amcanion priodol a DDdY gysylltiedig, sydd wedi'u hadolygu'n rheolaidd ac yn gadarn mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed mewn ymateb i gefnogaeth.
- Ceir tystiolaeth o:
  - Addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel;
  - Ymyriadau wedi'u targedu sy'n briodol i gefnogi amcanion unigol y plentyn;
  - Adolygu targedau ac effaith ymyriadau;
  - Gwerthusiad.

Bydd awdurdod lleol Conwy yn paratoi ac yn cynnal Cynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer y disgyblion hynny sydd wedi eu hasesu a'u pennu fel rhai sy'n bodloni'r meini prawf mynediad ar gyfer y darpariaethau canlynol:

### Dysgu Sylfaen

Darpariaeth	Ysgol/Allgymorth
Anawsterau Dysgu Cymedrol	Sŵn y Don
Anhwylder Iaith	Awel y Mynydd
Anhwylder Iaith	Allgymorth SSLDT*
Awtistiaeth ac Anawsterau Niwroddatblygiadol	Nant y Groes
Anawsterau Cymdeithasol ac Emosiynol	Canolfan Addysg (Y Ddraig)
Anawsterau Llythrennedd Penodol (Dyslecsia)	Gwasanaeth Cymorth Dysgu
Anabledd Dysgu Difrifol/Dwys	Gogarth

\*Tîm Anhwylder Iaith a Lleferydd Arbenigol

## Blynyddoedd 3-6

Darpariaeth	Ysgol/Allgymorth
Anawsterau Dysgu Cymedrol	Sŵn y Don
Anawsterau Dysgu Cymedrol	Tudno
Anawsterau Dysgu Cymedrol	Porth y Felin
Anawsterau Dysgu Cymedrol	Pen-cae
Anawsterau Dysgu Cymedrol	Bro Gwydir
Anawsterau Dysgu Cymedrol	Maes Owen
Anawsterau Dysgu Cymedrol ac Anhwylder Iaith	Awel y Mynydd
Anhwylder iaith	Nant y Groes
Anhwylder iaith	Allgymorth SSLDT
Awtistiaeth ac Anawsterau Niwroddatblygiadol	Ffordd Dyffryn
Anawsterau Cymdeithasol ac Emosiynol	Canolfan Addysg (Y Ddraig)
Anawsterau Llythrennedd Penodol (Dyslecsia)	Gwasanaeth Cymorth Dysgu
Anabledd Dysgu Difrifol/Dwys	Gogarth

## Uwchradd

Darpariaeth	Ysgol/Allgymorth
Anawsterau Dysgu Cymedrol	Emrys ap Iwan
Anawsterau Dysgu Cymedrol	John Bright
Anawsterau Dysgu Cymedrol	Eirias
Anawsterau Dysgu Cymedrol	Dyffryn Conwy
Anawsterau Dysgu Difrifol	Bryn Elian
Anhwylder iaith	Allgymorth SSLDT
Awtistiaeth ac Anawsterau Niwroddatblygiadol	Aberconwy
ABCD (Dyslecsia)	Aberconwy
Anawsterau Cymdeithasol ac Emosiynol	Canolfan Addysg (Penmaenrhos, Penrhos Avenue)
Anabledd Dysgu Difrifol/Dwys	Gogarth

## Ôl-16

Mae'r cyllid ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd ôl 16 wedi'i gynnwys yn y Grant Ôl-16. Felly, bydd ysgolion Conwy yn darparu'r holl DDdY ôl-16 o'u hadnoddau presennol.



## Offer Arbenigol

Mae ysgolion yn darparu'r holl offer TG fel gliniaduron, tabledi, neu lyfrau crôm y gallai fod eu hangen i gefnogi'r cynhwysiant a mynediad at wersi i ddisgyblion ag ADY.

Bydd yr awdurdod lleol yn darparu'r holl offer arbenigol arall sy'n werth mwy na £500.

## Arall

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn paratoi ac yn cynnal CDU ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY **sy'n cael eu Haddysgu yn Ddewisol yn y Cartref, yn Derbyn Gofal, wedi'u Cofrestru'n Ddeuol**, neu'n mynychu **Ysgolion/Lleoliadau Annibynnol**.

## Adolygu ADY

Yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), rhaid i'r Awdurdod Lleol adolygu'r trefniadau a wnaed gan yr awdurdod a gan gyrff llywodraethu'r ysgolion a gynhelir yng Nghonwy, ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau hyn yn ddigonol i fodloni ADY y plant a'r bobl ifanc rydym yn gyfrifol amdanynt. Wrth wneud hynny, byddwn hefyd yn ystyried y DDdY a allai gael ei threfnu'n rhesymol gan eraill (megis sefydliadau AU a chyrrff GIG).

Wrth arfer ein swyddogaethau yn hyn o beth, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried pa mor ddigonol yw'r DDdY yn Gymraeg. Ystyrir hefyd faint a gallu'r gweithlu sydd ar gael. Os yw Awdurdod Lleol o'r farn nad yw trefniadau lleol yn ddigonol, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i gywiro hyn.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cofnodi canfyddiadau ein hadolygiadau. Bydd hyn yn cynnwys lle nad yw'r galw am ddarpariaeth yn cael ei fodloni, neu lle mae perygl o hynny, yn ogystal â lle mae gorddarparu adnodd penodol. Trwy gofnodi gwybodaeth o'r fath gall Gweinidogion Cymru asesu pa mor addas yw'r cymal 'pob cam rhesymol' i sicrhau DDdY, yn enwedig mewn perthynas â'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â sicrhau bod adolygiadau Awdurdodau Lleol yn cyd-fynd yn llawn â'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Dylai adolygiad yr Awdurdod Lleol hefyd anelu at gynnig tystiolaeth o'r graddau y mae'r canlynol ar gael mewn ysgolion:

- Addysg o ansawdd uchel, gwahaniaethol ar gyfer plant a phobl ifanc unigol;
- Addasiadau rhesymol priodol i alluogi mynediad at amgylchedd, cwricwlwm a chyfleusterau'r ysgol i blant a phobl ifanc sy'n anabl;
- Ymyrraeth a chefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY;
- Systemau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd a chyflawniad plant a phobl ifanc sydd ag ADY a'u cynnwys ym mywyd bob dydd yr ysgol;
- Trefniadau ar gyfer cynnwys arbenigwyr lle bo angen;
- Trefniadau ar gyfer adolygu pa mor effeithiol yw'r ymyriadau a ddefnyddir i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag ADY a sgiliau ac arbenigedd staff; a
- Threfniadau ar gyfer cynnwys plant, pobl ifanc a rhieni ym mhob cam.

Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'r unigolion a/neu'r cyrff y mae'n credu eu bod yn briodol, ac ar adegau y mae'n credu ei fod yn briodol.

Wrth adolygu DDdY bydd hefyd angen adolygu data a thystiolaeth ar ba mor effeithiol yw'r ddarpariaeth bresennol o ran diwallu anghenion plant a phobl ifanc a gwella'r canlyniadau maent yn eu cyflawni. Wrth adolygu pa mor ddigonol yw ei drefniadau, bydd angen i Awdurdodau Lleol ystyried:

- Canfyddiadau a chanlyniadau unrhyw apelïadau neu hawliadau diweddar i'r Tribiwnlys ac unrhyw anghytuno ynghylch DDdY gafodd sylw ar lefel leol;
- Nifer y dysgwyr ag ADY yn ardal yr Awdurdod Lleol a fydd yn trosglwyddo o'r cyfnod cyn ysgol i'r ysgol, o'r ysgol i addysg bellach a'r rhai sy'n trosglwyddo o un lleoliad addysg feithrin/ysgol/sefydliad AB/ardal awdurdod lleol i'r llall;
- Lleoliadau y tu allan i'r ardal ar gyfer y rhai sydd ag anghenion achosion isel a/neu lefel uchel;
- Canlyniadau perthnasol asesiadau datblygiadol a wneir gan ymwelwyr iechyd a gwybodaeth berthnasol o Raglen Plant Iach Cymru;
- Data perthnasol ar blant a phobl ifanc anabl yn eu hardal o'r gofrestr o bobl anabl, y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ei chadw;
- Gwybodaeth berthnasol o asesiad anghenion y boblogaeth a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

- Gwybodaeth berthnasol o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol, yn benodol mewn perthynas â'r canlyniadau ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag ADY, a chynllunio'r gweithlu.

## Atodiad a – Lefelau Darpariaeth

Lefel Darpariaeth	Nifer y dysgwyr	Trosolwg	Math o ddarpariaeth
Cyffredinol	Y mwyafrif o ddysgwyr	Ystod o strategaethau a mesurau gwahaniaethu sydd ar gael i bawb yn ôl y gofyn.	Cynllunio a chyflenwi cwricwlwm ysgol gyfan. Addysgu gwahaniaethol a sgaffaldio o safon uchel. Addasiadau rhesymol ac addasiadau ac offer amgylcheddol sy'n caniatáu mynediad annibynnol at y cwricwlwm llawn.
Cyffredinol wedi'i Dargedu	Rhai dysgwyr	Yr ysgol yn darparu ymyraethau a/neu strategaethau penodol a/neu newidiadau i'r amgylchedd er mwyn ymateb i anghenion unigol y plentyn	<b>Yn ogystal â'r Lefel Gyffredinol....</b> Ymyrraeth byrdymor (o leiaf 2 dymor – yn amrywio fesul disgybl) Cyfnod atgyfnerthu a chyffredinoli ar gyfer sgiliau targed lle bo hynny'n briodol. Ymyraethau ar gyfer grwpiau bach / unigolion Grwpiau dal i fyny
CDU Ysgol	Rhai dysgwyr Rhestr ADY	Yr ysgol yn cefnogi gweithrediad darpariaeth wedi'i haddasu'n arbennig i blant a ddisgrifir fel Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY). Os na wnaethpwyd y cynnydd disgwylidig hyd yn oed ar ôl ymyrraeth wedi'i thargedu o dan gyfyngiadau amser.	<b>Yn ogystal â lefelau Cyffredinol a Chyffredinol wedi'i Dargedu...</b> Ymyrraeth hirdymor ar gyfer anawsterau treiddiol. Cyfnod atgyfnerthu a chyffredinoli ar gyfer sgiliau targed lle bo hynny'n briodol. Gwerthuso canlyniadau yn y CDU. Ymyraethau gyda grwpiau bach / unigolion (gyda chyngor gan weithwyr proffesiynol allanol o bosibl)
CDU Awdurdod Lleol	Rhai dysgwyr Rhestr ADY	Yr ALL yn cefnogi gweithrediad darpariaeth wedi'i haddasu'n arbennig i blant a ddisgrifir fel Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY).	Yn ogystal â lefelau Cyffredinol, Cyffredinol wedi'i Dargedu a CDU Ysgol... Gwerthuso canlyniadau yn y CDU. Darpariaeth arbenigol a ariennir gan yr awdurdod lleol. Plant mewn gofal. Dau gofrestrriad. Addysg Ddewisol yn y Cartref. Darpariaeth Ysgol Annibynnol.

## Atodiad b – Aelodaeth Panel Safoni ADY

<b>Cynrychiolwyr Panel Cymedroli ADY</b>
<b>Cadeirydd (Rheolwr Gwasanaeth ADY/SIS)*</b>
<b>Swyddog Cymorth Busnes ADY*</b>
<b>Swyddog Dynodedig (Cynradd)*</b>
<b>Swyddog Dynodedig (Uwchradd)*</b>
<b>Swyddog Dynodedig (Plant Mewn Gofal)*</b>
<b>Seicolegydd Addysg*</b>
<b>Swyddog Trafnidiaeth</b>
<b>Cynrychiolydd Tîm Pediatrig Cymunedol*</b>
<b>Cynrychiolydd Therapi Iaith a Lleferydd*</b>
<b>Cynrychiolydd CAMHS/CALDS</b>
<b>Cynrychiolydd Anableddau Dysgu*</b>
<b>Cynrychiolydd Plant sy'n Derbyn Gofal</b>
<b>Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd*</b>
<b>Cynrychiolydd yr Ysgol Uwchradd*</b>
<b>Cynrychiolydd Ysgol Arbennig*</b>
<b>Cynrychiolydd Uned Cyfeirio Disgyblion*</b>
<b>Partneriaeth Rhieni/Gwasanaethau Eiriolaeth*</b>

\* Aelodau Craidd

## Atodiad c - Meini Prawf Mynediad ac Ymadael ar gyfer Darpariaeth Arbenigol

### 1) Mynediad Cyffredinol (Yn berthnasol i bob darpariaeth)

#### Meini Prawf Mynediad Cyffredinol

Mae'r plentyn/person ifanc wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn yr ysgol, gofynnwyd am ei farn a'i dymuniadau a gwrandawyd arnynt yn briodol.

Mae'r plentyn/person ifanc wedi bod yn rhan o baratoi ac adolygu ei Gynllun Datblygu Unigol ac mae ymdrechion clir wedi'u gwneud i sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn deall diben pob ymyrraeth a chefnogaeth.

Mae rhieni/gofalwyr wedi bod yn cymryd rhan weithgar wrth gynllunio Cynllun Datblygu Unigol y plentyn/person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Mae rhieni wedi cael gwybodaeth briodol am ddiben ymyriadau a chefnogaeth.

Ceir tystiolaeth o:

- Addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel;
- Ymyriadau wedi'u targedu sy'n briodol i gefnogi amcanion unigol y plentyn;
- Adolygu targedau ac effaith ymyriadau;
- Gwerthusiad.

Mae'r ysgol wedi penderfynu bod gan y plentyn/person ifanc anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol wedi paratoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol, gan gynnwys amcanion priodol a DDdY gysylltiedig, sydd wedi'u hadolygu'n rheolaidd ac yn gadarn mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed mewn ymateb i gefnogaeth.

Gofynnwyd am gyfle i ymgynghori ar DDdY briodol gyda gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau cynghori perthnasol.

## 2) Anawsterau Dysgu Cymedrol-Difrifol

### Meini Prawf – Darparu Adnoddau ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol/Difrifol

Tystiolaeth o anawsterau gwybyddol o fewn yr ystod "isel iawn" fel y'i diffinnir gan asesiad safonol (e.e. Graddfeydd Gallu Prydain, WISC, Matricsau Datblygiadol Lliw Ravens). h.y. llai na 5ed canradd (2<sup>il</sup> ganradd ar gyfer darpariaeth Anawsterau Dysgu Difrifol)

Gall rhai plant amlygu cryfderau ac anawsterau yn eu proffil gwybyddol. Pan fo hyn yn wir, rhaid cael tystiolaeth bod natur gyfunol eu hanawsterau yn arwain at amlygu anawsterau dysgu gweithredol sylweddol.

Tystiolaeth o anawsterau dysgu sylweddol sy'n cael effaith sylweddol ar fynediad y plentyn i'r cwricwlwm prif ffrwd.

Mae proffil dysgu a datblygiadol y plentyn yn golygu eu bod wedi bod angen darpariaeth wahaniaethol sylweddol a chefnogaeth ychwanegol y tu hwnt i'r ddarpariaeth gyffredinol ddisgwyliedig, ac er gwaethaf cefnogaeth briodol o lefel uchel, cyfyngedig fu eu cynnydd.

Ynghyd â'r anawsterau hyn gallai fod yna anawsterau iaith, cyfathrebu neu ddatblygiadol cysylltiedig eraill a'u bod i'w gweld ar draws y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm.

Ceir tystiolaeth fod canlyniadau addas wedi'u pennu a darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol.

Ceir tystiolaeth y gofynnwyd am gyngor gan asiantaethau priodol (SALT, Athrawon Cynhwysiant/ADY, Seicoleg Addysgol) a gweithredwyd strategaethau.

Yn unol â'r Cod ADY, mae CDU ysgol wedi'i baratoi a'i adolygu mewn partneriaeth â'r plentyn a'u rhieni/gofalwyr ynghyd ag unrhyw asiantaethau eraill dan sylw.

### 3) Anawsterau Llythrennedd Penodol

#### Meini Prawf – Darpariaeth Allgymorth ar gyfer Anawsterau Llythrennedd Penodol – Gwasanaeth Cymorth Dysgu

Mae CDU Ysgol wedi'i baratoi a'i adolygu mewn partneriaeth â'r plentyn a'u rhieni/gofalwyr ynghyd ag unrhyw asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r gwaith.

Mae cynnydd cyfyngedig iawn dros amser yn cael ei ddangos yn asesiadau'r ysgol sy'n awgrymu bod yr anhawster llythrennedd penodol yn cael effaith sylweddol ar gynnydd ar draws rhai meysydd o'r cwricwlwm, er gwaethaf gweithredu ac adolygu Cynllun Datblygu Unigol Ysgol.

Ceir tystiolaeth y gofynnwyd am gyngor gan asiantaethau priodol (SALT, Athrawon Cynhwysiant/ADY, Seicoleg Addysgol) a gweithredwyd strategaethau.

Bydd plant sydd â thystiolaeth o sgiliau rhesymu di-eiriau **uwchben y 75ain canradd** yn gymwys gyda sgoriau safonedig mewn darllen a/neu sillafu o **80 neu is** ar sail asesiad ffurfiol.

Neu, bydd plant sydd â thystiolaeth o sgiliau rhesymu di-eiriau **rhwng 50<sup>fed</sup> a 75ain canradd** neu uwch yn gymwys gyda sgoriau safonedig mewn darllen a/neu sillafu o **75 neu ia** ar sail asesiad ffurfiol.

Neu, bydd plant sydd â thystiolaeth o sgiliau rhesymu di-eiriau **o dan 50<sup>fed</sup> canradd** yn gymwys gyda sgoriau safonedig mewn darllen a/neu sillafu o **70 neu is** ar sail asesiad ffurfiol.

Prif faes angen a nodwyd gan y disgybl yw anawsterau llythrennedd penodol a gallai anawsterau iaith sylweddol gyd-fynd â hyn.

Tystiolaeth o anghysondeb rhwng sgiliau llefaredd a gwaith ysgrifenedig.



## Meini Prawf – Darparu Adnoddau ar gyfer Anawsterau Llythrennedd Penodol

Bydd o leiaf ddau adolygiad CDU gyda chyngor perthnasol gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol a Chynhwysiant wedi'u cynnal gyda thystiolaeth bod strategaethau a argymhellir wedi'u gweithredu.

Prif faes angen a nodwyd gan y disgybl yw anawsterau llythrennedd penodol a gallai anawsterau iaith sylweddol gyd-fynd â hyn

Bydd difrifoldeb llythrennedd penodol y disgybl ac, os yw'n berthnasol, anghenion iaith yn sylweddol, er gwaethaf cefnogaeth ddwys dros amser, ac er gwaethaf dangos peth cynnydd mewn ymateb i'r gefnogaeth hon.

Bydd disgyblion wedi bod yn derbyn cefnogaeth y Gwasanaeth Cymorth Dysgu a/neu SSLDT am gyfnod, a thrwy'r broses o adolygu'r gefnogaeth hon byddant wedi'i nodi fel rhai sy'n profi anawsterau cymhleth parhaus sy'n effeithio ar eu gallu i gael mynediad at y cwricwlwm prif ffrwd heb lefel sylweddol o gefnogaeth ac addysgu arbenigol.

Drwy'r broses Adolygu Blynyddol, bydd rhieni, gweithwyr proffesiynol a staff addysgu sy'n ymwneud â chefnogaeth y disgybl wedi nodi'r canlynol:

Mae'r disgybl yn parhau i fod ag angen cymorth arbenigol ychwanegol mewn sefyllfa addysgu unigol/grwpiau bach neu o fewn cyd-destun dosbarth prif ffrwd er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu ac i wella sgiliau iaith/llythrennedd/rhifedd.

Mae'r disgybl angen mynediad at gyfleoedd dysgu sy'n seiliedig ar gyfleoedd addysgu amlsynhwyraidd, cyfleoedd i or-ddysgu, dulliau addysgu strwythuredig a mynediad at adnoddau TG arbenigol.

Mae'r disgybl angen lefel fwy dwys o gymorth na'r hyn y gellir ei ddarparu gan athro arbenigol peripatetig o fewn eu hysgol brif ffrwd.

#### 4) Tîm Anhwylder Iaith a Lleferydd Arbenigol

##### Meini Prawf – Darparu Adnoddau Iaith ac Allgymorth ar gyfer Anhwylder Iaith a Lleferydd

Nid oes tystiolaeth o 'Anhwylder Iaith yn gysylltiedig ag Anabledd Deallusol' \*

##### Iaith

Mae Asesiad gan Ymgynghorydd Iaith a Lleferydd Arbenigol yn dangos proffil iaith anhrefnus. Sgoriau asesu o dan 5<sup>ed</sup> canradd (allgymorth) neu 2<sup>il</sup> ganradd (Adnodd iaith) mewn dau faes neu fwy o iaith. \*\*

##### Lleferydd

Mae datblygiad lleferydd anhrefnus yn effeithio ar fwy nag un broses gwall (ynganu a/neu brosesau ffonolegol). Mae prosesau gwallau lleferydd yn cael effaith sylweddol ar ddeallusrwydd a mynediad at y cwricwlwm gan gynnwys sgiliau llythrennedd.

Mae tystiolaeth (e.e. CAU, gwerthusiadau ICP, proffiliau un dudalen) a gasglwyd o'r lleoliad a mewnbyn therapi iaith a lleferydd yn dangos cynnydd cyfyngedig dros amser. Gall y diffyg cynnydd hwn nodi bod yr anhwylder iaith/lleferydd yn cael effaith sylweddol ar ddysgu/gweithrediad/mynediad at y cwricwlwm/iechyd a lles emosiynol.

Mae angen addasiadau sylweddol i'r amgylchedd dysgu iaith ac mae angen lefel uchel o gymorth gan oedolion ar y person ifanc er mwyn manteisio ar y cyfleoedd addysgol a gynigir.

\* Fel y'i diffinnir yn 2.1.2 ym Mhapur Briffio Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd (RCSLT) ar Anhwylder Iaith gyda Ffocws Penodol ar Anhwylder Iaith Ddatblygiadol

\*\* Pan na fydd asesiad ffurfiol yn bosibl (e.e. dwyieithog, ADY a rhai dan 5 oed) bydd yr wybodaeth a ddarperir gan amlaf yn wybodaeth ansoddol i gyfrannu at eu penderfyniadau clinigol.

## 5) Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig

### Meini Prawf – Darparu Adnoddau ar gyfer Anhwylder Sbectrwm Awtistig

Mae gan y plentyn ddiagnosis o Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig neu anhwylder niwroddatblygiadol cysylltiedig eraill/mae yn y broses o gael asesiad niwroddatblygiadol/yn niwroamrywiol..

Mae cymhlethdod anawsterau niwroddatblygiadol y plentyn yn cael effaith sylweddol ar ei allu i gael mynediad llwyddiannus i amgylchedd ysgol prif ffrwd er ei fod wedi cael cefnogaeth barhaus ar lefel ysgol am gyfnod sylweddol.

Mae'r plentyn wedi gwneud cynnydd cyfyngedig iawn o ran cyrhaeddiad addysgol yn ei ysgol brif ffrwd oherwydd effaith sylweddol ei anhwylder niwroddatblygiadol ar ddysgu/presenoldeb.

Er gwaethaf addasiadau sylweddol i'r amgylchedd dysgu prif ffrwd a mwy o staff, mae anawsterau'r plentyn i sicrhau mynediad a/neu gynhwysiant yn parhau o safbwynt cymdeithasol a'r cwricwlwm.

Nid yw asesiad gwybyddol/perfformiad yn dangos anhawster dysgu difrifol ac o bosibl mae gan y plentyn gapasiti dysgu i gael mynediad at y Cwricwlwm Cenedlaethol fel y'i cyflwynir mewn lleoliad prif ffrwd gyda gwahaniaethu priodol (h.y. eu hanawsterau sy'n gysylltiedig ag anawsterau niwroddatblygiadol yn hytrach nag anabled dysgu sy'n effeithio ar fynediad a chynnydd).

Ceir tystiolaeth bod canlyniadau addas wedi'u cytuno a bod cymorth priodol yn ei le i helpu'r plentyn i wneud cynnydd tuag at y canlyniadau hyn.

Ceir tystiolaeth y gofynnwyd am gyngor gan asiantaethau priodol Gwasanaeth Allgymorth SALT, Athrawon Cynhwysiant/ADY, Seicoleg Addysgol) a gweithredwyd strategaethau.

Mae CDU Ysgol wedi'i baratoi a'i adolygu mewn partneriaeth â'r plentyn a'u rhieni/gofalwyr ynghyd ag unrhyw asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r gwaith.

## 6) Ysgol Arbennig

### Criteria – Ysgol y Gogarth

Mae'r plentyn/person ifanc wedi amlygu:

- Anabledd/anawsterau dysgu difrifol
- Anabledd/anawsterau dysgu dwys a lluosog
- Anabledd dysgu cymedrol ynghyd ag anawsterau cymhleth a sylweddol mewn un neu fwy o feysydd eraill yn eu datblygiad, er enghraifft, anhwylder ar y sbectrwm awtistig (cyflwr), cyfathrebu cymdeithasol, lleferydd ac iaith neu echddygol/cydsymud. Mae'r cyfuniad o'r anawsterau hyn yn golygu bod y plentyn/person ifanc yn profi anawsterau sylweddol wrth ddysgu ac wrth gael mynediad at ddarpariaeth addysgol prif ffrwd.

Mae anghenion dysgu a datblygiadol cymhleth y plentyn/person ifanc yn cael effaith sylweddol ar ei allu i gael mynediad **gweithredol** at y cwricwlwm prif ffrwd, hyd yn oed gydag addasiadau sylweddol a chefnogaeth briodol.

Mae anghenion dysgu a datblygiadol cymhleth y plentyn/person ifanc yn cael effaith sylweddol ar ei allu i gael mynediad at amgylchedd prif ffrwd **yn gymdeithasol**, hyd yn oed gydag addasiadau sylweddol a chefnogaeth briodol.

Ceir tystiolaeth gan y plentyn/person ifanc, a/neu oedolion sy'n cefnogi (gan gynnwys rhieni, staff addysgu, gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r gwaith) yn dangos bod lles y plentyn/person ifanc yn cael ei effeithio'n andwyol gan ei leoliad a'i gefnogaeth bresennol.

Ceir tystiolaeth o ddull clir fesul haen/graddedig o ymateb i anghenion dysgu ychwanegol y plentyn/person ifanc, gan gynnwys:

- Gweithredu argymhellion a chynghor a ddarperir gan weithwyr proffesiynol perthnasol ac asiantaethau cymorth arbenigol/gwasanaethau cynghori.
- Addasiadau cwricwlaidd ac amgylcheddol priodol.
- Prosesau gosod ac adolygu targedau ar y cyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Cymorth ADY ychwanegol fel y cytunwyd gan Banel Safoni ADY y Sir.

Mae gan y plentyn/person ifanc Gynllun Datblygu Unigol Awdurdod Lleol sy'n enwi Ysgol y Gogarth

Neu, mae'r plentyn/person ifanc yn cael ei ystyried ag ADY ac mae'r ysgol (Ysgol y Gogarth) a Phanel Safoni ADY yn cytuno ei fod yn debygol iawn o fod angen darpariaeth arbenigol ar ôl i'w Asesiad gael ei gwblhau.

*(Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i blant cyn-ysgol sy'n gadael y Ganolfan Datblygu Plant i ddechrau'r ysgol rhan amser).*

## 7) Unedau Cyfeirio Disgyblion a Hyfforddiant Cartref

### Criteria – Canolfan Addysg Conwy (Pupil Referral Unit)

Mae gan y plentyn anawsterau emosiynol ac ymddygiad cysylltiedig sy'n golygu nad ydynt yn medru cael mynediad i ddarpariaeth prif ffrwd hyd yn oed gydag addasiadau priodol a thystiolaeth sylweddol.

Mae CDU ysgol wedi'i baratoi a'i gynnal am gyfnod priodol o amser i alluogi adolygiad o strategaethau a chynnydd mewn partneriaeth â'r plentyn a'i rieni/gofalwyr, ynghyd ag unrhyw asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig, yn unol â'r

Mae anghenion dysgu ychwanegol y plentyn wedi'u hasesu'n llawn i ystyried yr holl feysydd datblygiad, a sicrhawyd unrhyw ddarpariaeth berthnasol arall i'r anghenion hyn.

Ysgol wedi codi ymwybyddiaeth o anghenion y plentyn trwy gyfarfod Canolfan Addysg Conwy ac arweinwyr CCS a/neu gofyn am gyngor gan staff y ganolfan berthnasol (e.e. Allgymorth Cynhwysiad Cymdeithasol, Y Ddraig, Penmaenrhos, Rhodfa Penrhos).

Ceisiwyd cyngor ychwanegol gan weithwyr proffesiynol perthnasol eraill fel y bo'n briodol, e.e. Seicoleg Addysg, Therapi Iaith a Lleferydd, timau lechyd.

Lle mae presenoldeb wedi'i nodi fel pryder, mae tystiolaeth glir o weithio mewn partneriaeth â'r plentyn a'i deulu i fynd i'r afael â'r pryder hwn, gan ddefnyddio adnoddau fel OYSE fel y bo'n briodol.

Mae tystiolaeth o amserlenni wedi'u haddasu yn seiliedig ar anghenion dysgwyr ac anawsterau ymddygiad sydd wedi'u cwblhau dros gyfnod hir o amser.

### Meini Prawf – Canolfan Addysg Conwy – Hyfforddiant yn y Cartref

Mae gan y dysgwr dystiolaeth o gyflwr meddygol fel y cadarnhawyd gan arbenigwr/ymarferydd meddygol ymgynghorol y dysgwr sy'n gwahardd mynediad i leoliad addysg am gyfnod y rhagwelir y bydd yn hwyrach na 4 wythnos.